# Sut i ddod yn gynghorydd

Caiff cynghorwyr cymuned eu hethol gan y cyhoedd a gwasanaethant am gyfnod o bedair blynedd. Ar ôl etholiadau, mae cynghorau'n penodi cadeirydd, neu faer y dref mewn cynghorau tref.

### Trefn Etholiadau

Cynhelir etholiadau arferol ar gyfer cynghorwyr lleol ar y Dydd Iau cyntaf ym mis Mai bob pedair blynedd. Ar gyfer y rhan fwyaf o gynghorau lleol yng Nghymru blwyddyn etholiad yw 2004, 2008 ac ati, ond os yw cynghorydd yr awdurdod unedol yn cael ei ethol mewn blwyddyn arall honno hefyd yw blwyddyn etholiad y cyngor lleol. Mae ad-drefnu llywodraeth leol yn gallu newid diwrnod yr etholiad a blwyddyn yr etholiad o dan rai amgylchiadau.

### Mae amserlen etholiadau fel a ganlyn:

- Cyhoeddi hysbysiad yr etholiad. Heb fod yn hwyrach na'r pumed diwrnod ar hugain cyn diwrnod yr etholiad.
- Cyflwyno Papurau Enwebu: Heb fod yn hwyrach na chanol dydd ar y pedwerydd diwrnod ar bymtheg cyn diwrnod yr etholiad.
- Cyhoeddi rhestr yr ymgeiswyr: Heb fod yn hwyrach na chanol dydd ar yr ail ddiwrnod ar bymtheg cyn diwrnod yr etholiad.
- Cyflwyno hysbysiadau o dynnu ymgeisyddiaeth yn ôl: Heb fod yn hwyrach na chanol dydd ar yr unfed diwrnod ar bymtheg cyn diwrnod yr etholiad.
- Hysbysiad yr Etholiad: Heb fod yn hwyrach na'r chweched diwrnod cyn diwrnod yr etholiad.
- Pleidleisio: Rhwng 07:00 a 22:00 ar ddiwrnod yr etholiad.

Wrth gyfrif yr amserlen ni chynhwysir Gwyliau Banc na phenwythnosau.

### Proses enwebu

Rhaid i ddarpar ymgeisydd gyflwyno neu ddanfon trwy'r post (danfoniad wedi'i gofnodi) i'r Swyddog Etholiadol bapur enwebu dilys. Mae'r ffurflen hon ar gael gan y Swyddog. Rhaid rhoi cyfenw, enwau blaen, preswylfa a disgrifiad (os oes angen un) yr ymgeisydd a'i rif neu ei rhif a'i lythyren neu ei llythyren rhagddodol o'r gofrestr etholwyr gyfredol. Mae gan y Swyddog Etholiadol gopi o'r gofrestr hon, ac fel arfer mae gan glerc y cyngor cymuned gopi hefyd.

Rhaid i'r papur enwebu gynnwys hefyd yr un manylion ar gyfer cynigydd ac eilydd. Rhaid iddynt fod yn etholwyr ar gyfer yr ardal y mae'r ymgeisydd yn ceisio cael ei ethol neu ei hethol ynddi (h.y. y gymuned neu dref neu'r ward os yw wedi'i rhannu'n wardiau): mae'n rhaid iddynt ei lofnodi.

### Beth Nesaf?

Y Swyddog Etholiadol a benodir gan awdurdod unedol yw'r person sy'n gyfrifol am gynnal a threfnu etholiadau cynghorau cymuned a thref. Os ydych yn ystyried dod yn ymgeisydd ar gyfer etholiad efallai y dylech gysylltu â'r Swyddog Etholiadol i gael mwy o fanylion. Er mwyn cael mwy o fanylion am sut brofiad yw bod yn gynghorydd, mae croeso ichi gysylltu ag Un Llais Cymru neu eich cyngor neu dref lleol.

### Mae etholiad ar 3 Mai 2012

Ar ôl etholiad Mai 2012, os ddaw sedd yn wag ynghanol tymor cyngor (neu os nad oes digon o ymgeiswyr i lenwi holl seddi'r cyngor adeg etholiad) efallai y bydd rhaid i'r cyngor gynnal isetholiad. O dan rai amgylchiadau gall y cyngor hefyd gyfethol aelodau ar y cyngor.

**One Voice Wales, 24c College Street, Ammanford, Carmarthenshire, SA18 3AF**
**Tel:- 01269 595400 Fax:- 01269 598510**
**Email:- admin@onevoicewales.org.uk Website:- www.onevoicewales.org.uk**